



CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

**Rhaglen Fframwaith
ar gyfer y coffáu
yng Nghymru 2014-2018**

Hydref 2013

**Gadair unig ei drig draw! - Ei dwyfraich,
Fel pe'n difrif wrandaw,
Heddiw estyn yn ddistaw
Mewn hedd hir am un ni ddaw.**

Hedd Wyn (II) gan R. Williams Parry

Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru

Rhagair gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

Wrth i ni nesáu at ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, mae'n briodol ein bod yn myfyrio ynghylch y digwyddiad ysgubol hwn a arweiniodd at aberth a dewrder aruthrol ar faes y frwydr ac at wroldeb tawel gartref. Lluniodd y cyfnod rhwng 1914 ac 1918 a'r cyfnod a ddaeth yn syth wedyn y Gymru yr ydym yn byw ynddi heddiw, ac yn ogystal â deall pam yr aeth gwledydd i ryfel mae angen hefyd i ni ddeall effaith barhaol y rhyfel hwnnw ar ein bywydau o ddydd i ddydd. Ar ôl y rhyfel roedd pobl yn disgwyl cael bywydau gwell a llywodraeth well i ddarparu gwasanaethau iechyd a chartrefi a oedd yn 'addas i arwyr'. Arweiniodd yr hyder yr oedd llawer o fenywod wedi ei ennill wrth gyflawni gwaith hanfodol gartref at alwadau o'r newydd am yr hawl i bleidleisio. Yn anffodus ni châ'r dyheadau hyn eu bodloni bob amser, neu caent eu bodloni'n araf, ond roedd bywydau pawb wedi'u newid gan y rhyfel hir a chaled, boed drwy golled bersonol, amgylchiadau economaidd neu newid technolegol.

Rwyf am i'r digwyddiadau coffáu hyn gyrraedd pobl o bob oed er mwyn eu hannog i gymryd diddordeb, boed yn hanes eu teuluoedd neu'u cymunedau eu hunain neu mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Yn anffodus mae rhyfeloedd yn parhau'n rhan o'n byd, ac o ddeall achosion ac effaith y 'Rhyfel Mawr' gall pobl ifanc ddysgu cryn dipyn am sut y dylem ddatrys gwrthdaro yn ein hoes ni. Bydd y Rhaglen Goffáu yng Nghymru yn cynnwys unigolion, teuluoedd, ysgolion a mudiadau lleol yn ogystal â'n sefydliadau cenedlaethol a'n darlledwyr, ein lluoedd arfog a'n cyrff diwylliannol. Bwriedir i'r Rhaglen fod yn fframwaith o weithgareddau a digwyddiadau a ysgogir gan ddadlau a thrafod yn ogystal â bod yn goffadwriaeth briodol am ddigwyddiadau pwysig megis Brwydr Passchendaele

yn 1917 lle colodd Hedd Wyn ei fywyd heb wybod ei fod wedi ennill prif wobwr farddol Cymru, sef Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y gadair wag honno â lliain du wedi'i daenu drosti'n symbol o'r holl gadeiriau gwag eraill a oedd mewn cartrefi ledled Cymru.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch gwahodd i gyd i fod yn rhan o'n Rhaglen a fydd yn dechrau ym mis Awst 2014. Gallwch wneud hynny drwy ystyried datblygu eich prosiectau neu'ch gweithgareddau eich hunain, drwy ymchwilio i'ch cofgolofn leol er mwyn darganfod straeon y sawl a fu farw dan amgylchiadau mor drasig, drwy ymweld â'r arddangosfeydd a'r digwyddiadau a fydd yn dehongli cyfraniad Cymru i'r ymdrech i ennill y rhyfel, a thrwy gyfrannu at yr archif ddigidol yr wyf yn awyddus iddi fod yn waddol parhaol i'r digwyddiadau coffáu hyn. Edrychaf ymlaen at gyfnod coffáu yng Nghymru a fydd yn dod â phobl ynghyd i roi teyrnged i'r Cymry hynny y caiff eu dycnwch a'u haberth eu cofio'n haeddiannol gan bob un ohonom.





Rhagair gan yr Athro Syr Deian Hopkin, Cynghorydd Arbenigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf

Ym mis Awst 2014 byddwn yn dechrau ar bedair blynedd o goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a oedd yn gyfres o ddigwyddiadau milwrol, gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd.

Yn ystod y blynyddoedd coffáu hyn, byddwn yn myfyrto ynghylch llawer o agweddau ar y rhyfel ac yn ystyried beth yr oedd yn ei olygu i'r Cymry - y sawl a fu'n brwydro ar y tir, ar y môr ac yn yr awyr ac a gollodd eu bywydau'n rhy aml o lawer, y sawl a oroesodd ond a ddioddefodd niwed corfforol a meddyliol difrifol, a'r sawl a fu'n cyflawni swyddi'n ymwneud â'r rhyfel neu a fu'n cadw pethau i fynd gartref. Byddwn hefyd yn myfyrto ynghylch yr heriau i'r sawl a wrthwynebai'r rhyfel neu a wrthododd gymryd rhan am resymau crefyddol neu wleidyddol.

Mae brwydrau tyngedfennol y rhyfel wedi denu sylw haneswyr, bywgraffyddion a nofelwyr yn ogystal â chyfarwyddwyr ffilm a theledu ers amser. Mae'r cynnyrch llenyddol, o atgofion Robert Graves a Siegfried Sassoon i farddoniaeth Wilfred Owen, wedi dod yn rhan o'n canon llenyddol. Mae haneswyr cymdeithasol wedi archwilio effaith ddomestig y rhyfel, ac mae haneswyr diplomyddol a gwleidyddol wedi dadlau ynghylch achosion ac effeithiau'r datblygiadau pellgyrhaeddol hyn.

Gwaddol pennaf un y digwyddiadau coffáu hyn fydd addysgu'r genedl, yr hen a'r ifanc, er mwyn i bob un ohonom allu meithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf sy'n gyfnod hanesyddol y mae ei ddylanwad yn parhau ar ein cymdeithas heddiw.





Trigolion Tal-y-bont, Ceredigion tua 1910. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

Cymru yn 1914

Yn ystod y blynyddoedd a arweiniodd at ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf roedd Cymru, fel gweddill Prydain, yn mynd drwy gyfnod a oedd yn eithaf llewyrchus o safbwynt economaidd ond a oedd yn gythryblus o safbwynt gwleidyddol.

Ar y naill law roedd yn gyfnod o fwrlwm deallusol, datblygiadau technolegol cyffrous ac ymdeimlad o newid a momentwm. Ar y llaw arall, mae haneswyr wedi disgrifio'r blynyddoedd rhwng 1910 ac 1914 fel cyfnod yr 'Aflonyddwch Mawr'.

Roedd undebwyr llafur, a oedd yn perthyn i undebau mwyfwy pwerus, mewn anghydfodau chwerw â'u cyflogwyr, ac roedd rhai o'r anghydfodau hynny wedi arwain at wrthdaro difrifol â'r fyddin a'r heddlu, megis yn Nhonypanyd yn 1910 a Llanelli yn 1911. Roedd *suffragettes* yn ymgyrchu dros gael pleidlais gan ddefnyddio dulliau annisgwyl o uniongyrchol yn aml, ac yn Iwerddon roedd y tensiwn rhwng yr Ymreolwyr a'r Unoliaethwyr yn cynyddu'n arswydus o gyflym.

Yn fwy cyffredinol roedd cysylltiadau rhyngwladol yn gythryblus, ac arweiniodd drwgdybiaeth gyffredin rhwng cynghreiriau o bwys at ras arfau nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Eto i gyd, roedd y ffaith bod rhyfel wedi dechrau yn syndod, yn enwedig y modd y trodd anghydfod rhanbarthol yn y Balcanau yn wrthdaro byd-eang ac yn wrthdaro a aeth yn groes i'r holl ddarogan ym mis Awst 1914 y byddai'r cyfan 'drosodd erbyn y Nadolig'.

Bydd deall cwrs digwyddiadau, eu hachosion a'u cyd-destun, heb os, yn rhan ganolog o goffáu'r canmlwyddiant.

Materion milwrol

Y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y trobwynt rhwng rhyfela traddodiadol a rhyfela modern sy'n seiliedig ar dechnoleg. Yn groes i ddisgwyliadau afrealistig y byddai byddino marchfilwyr a throedfilwyr symudol yn arwain at ddiweddglo buan a llwyddiannus i'r rhyfel, daeth yr ymdrech filwrol i stop yn gyflym iawn. Maes o law, yn wyneb colledion enfawr a chynyddol ac wrth i'r byddinoedd proffesiynol a gwirfoddol gael eu chwalu, cafodd gwasanaeth milwrol gorfodol ei gyflwyno.

Gwnaeth Cymru gyfraniad sylweddol a pharhaus i'r ymdrech i ennill y rhyfel. Amcangyfrifir bod tua 273,000 o ddyinion wedi'u recriwtio rhwng 1914 ac 1918, naill ai fel gwirfoddolwyr neu fel milwyr gorfodol i wasanaethu yn y Fyddin. Bu 250,000 yn gwasanaethu yn un o'r Catrodau Cymreig a bu tua 185,000 yn gwasanaethu dramor ar ryw adeg neu'i gilydd. Bu farw 40,000 o'r rhain, yng Ngorllewin Ewrop yn bennaf.

Heddiw, saif cofeb yng Nghoed Mametz i goffáu dewrder milwyr o Gymru, a bwriedir gosod cofeb newydd yn Langemark lle bu farw'r bardd Hedd Wyn a chynifer o rai eraill yn ystod Brwydr Passchendaele. Yn ogystal â gwasanaethu ar Ffrynt y Gorllewin, bu milwyr o Gymru hefyd yn gwasanaethu yn Gallipoli, Salonika, Yr Eidal, Palestina, Dwyrain Affrica a hyd yn oed Tsieina. Roedd morwyr o Gymru yn rhan annatod o'r 400,000 o forwyr o'r DU a wasanaethodd yn ystod y rhyfel, gan gynnwys nifer yn y llynges fasnachol, gan chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod Prydain yn cael cyflenwadau digonol o nwyddau, tra gwasanaethodd awyrenwyr o Gymru yn y Royal Flying Corps newydd.

Ar wahân i'r sawl a fu'n gwasanaethu'n uniongyrchol, bu cannoedd o filoedd o rai eraill yn gwasanaethu mewn ffyrdd gwahanol – mewn rolau cynorthwyol,

yn y gwasanaethau meddygol neu yng nghyswllt cludiant, yn enwedig er mwyn cynnal y llu o geffylau a gâi eu defnyddio. Erbyn canol 1917, roedd dros filiwn o geffylau'n cael eu defnyddio gan Brydain yn unig, ac roedd pob un ohonynt yn bwyta deg gwaith yn fwy o fwyd na phobl, ar sail pwysau. Er mwyn astudio'r rhyfel, felly, mae angen deall y dasg logistaidd enfawr a oedd y tu ôl i bob ymgyrch milwrol.

'The Welsh at Mametz Wood', paentiad olew gan yr arlunydd Cymreig Christopher Williams (1873-1934). © Amgueddfa Cymru



HMS Centurion, llong ryfel dosbarth King George V, 1918. © IWM (Q13955)



ORDNANCE OFFICE
WELSH DIVISION
(T.F)

Gartref

Os gwelodd y Rhyfel Byd Cyntaf y byddinoedd mwyaf erioed yn gwrthdaro â'i gilydd, fe welodd y Rhyfel hwnnw hefyd adnoddau cenedl yn cael eu defnyddio i'r graddau eithaf erioed. Effeithiodd y Rhyfel ar bob cymuned a phob unigolyn mewn rhyw fodd neu'i gilydd, a chafodd holl allbwn economaidd y wlad ei gyfeirio at yr ymdrech i ennill y rhyfel.

Yn ogystal â defnyddio nifer enfawr o ddynion, menywod a deunyddiau, cyflwynwyd trefniadau rheoli nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Gyda Deddf Amddiffyn y Deyrnas cyflwynwyd yr egwyddor o reolaeth wladwriaethol a oedd y tu hwnt i unrhyw beth a fodolai cyn hynny, a oedd yn ymestyn o werthu alcohol a rheoli cyflenwadau bwyd i gynhyrchu mwynau a threfnu cludiant, ac a oedd yn cynnwys cyfyngu ar ryddid barn. Yn gyffredinol, roedd poblogaeth Prydain yn hollol gefnogol i'r ymdrech i ennill y rhyfel; trodd undebwyr llafur a oedd wedi addo gwrthwynebu'r rhyfel cyn 1914 yn gefnogwyr brwd, a rhoddodd *suffragettes* y gorau i'w hymgyrch i gael pleidlais er mwyn cefnogi'r Llywodraeth, ac roedd hynny mor wir am Gymru ag yr oedd am unrhyw ran arall o Brydain. Rhoddodd y Llywodraeth ei hun y gorau dros dro i wleidyddiaeth bleidiol a chafodd clymblaid ei ffurfio. Nid oedd pawb o'r un farn, fodd bynnag; roedd yna lawer o heddychwyr ac ymgyrchwyr gwleidyddol a wrthododd yr alwad i ryfel, ac ar ôl i orfodaeth filwrol gael ei chyflwyno gwrthododd nifer fawr o ddynion ifanc ymuno â'r fyddin ar sail eu cydwybod, ac wynebodd llawer ohonynt gryn galedi o achos hynny.

Wrth i'r rhyfel fynd rhagddo cynyddodd yr alwad am heddwch, ond hyd yn oed tua diwedd y rhyfel roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn parhau i gyfrannu i'r ymdrech i'w ennill, yn enwedig menywod a ymgymerodd â gwaith a wnaed gan ddynion yn unig tan hynny – a oedd yn cynnwys gwaith mewn ffatrioedd ac ym maes diwydiant hyd yn oed. Heb ymdrech o'r fath, ar draws pob haen yn y gymdeithas, mae'n anodd credu y gallai'r ymdrech filwrol fod wedi llwyddo.

Gwneud brics yn ne Cymru tua 1918. © IWM (Q28439)





*Nyrsgys yn sicrhau adferiad milwyr mewn ysbyty a sefydlwyd yn Sain Ffagan:
Amgueddfa Werin Cymru. ©*

Effaith rhyfel

Roedd Cymru yn gymdeithas a oedd wedi'i gweddnewid yn ystod y blynyddoedd yn dilyn 1918. Mater i haneswyr ddadlau yn ei gylch yw a ddigwyddodd hynny o ganlyniad i effaith y rhyfel ynteu a gyflymodd y rhyfel brosesau a oedd eisoes ar waith. Ond roedd y newid yn amlwg, yn enwedig ym maes gwleidyddiaeth. Arweiniodd camau i estyn yr etholfraint yn 1918 at dreblu nifer yr etholwyr ac at roi pleidlais i fenywod am y tro cyntaf, a chyn pen nifer fach iawn o flynyddoedd gwelwyd newid sylfaenol mewn grym gwleidyddol wrth i'r Blaid Lafur ddisodli'r Rhyddfrydwyr fel y prif ddewis yn lle'r Ceidwadwyr yng Nghymru a thu hwnt, sy'n newid sydd wedi parhau hyd heddiw. Roedd ymwybyddiaeth newydd o wleidyddiaeth ryngwladol yn amlwg, fel y gwelwyd wrth i Gadair Athro gael ei sefydlu ar gyfer y pwnc am y tro cyntaf erioed yn Aberystwyth yn 1919.

Roedd y ffaith bod cynifer wedi'u galw i'r fyddin ac wedi gwasanaethu dramor wedi ehangu gorwelion llawer o bobl na fyddent fel arall wedi mentro y tu hwnt i ffiniau eu hardaloedd lleol, ac roedd hefyd wedi eu gwneud yn ymwybodol tu hwnt o beryglon rhyfel. Roedd sicrhau heddwch yn thema bwerau yn yr 1920au a'r 1930au, a ymgorfforwyd gan optimistiaeth Cynghrair y Cenhedloedd a'i hasiantaethau rhyngwladol cysylltiedig. Ar yr un pryd, gwelwyd cynnydd sydyn mewn optimistiaeth greadigol, a ysgogwyd efallai gan erchyllterau rhyfel. Yn y cyfamser dechreuodd datblygiadau technolegol, a gafodd eu cyflwyno neu'u gwella at ddibenion milwrol, ddylanwadu ar fywyd pob dydd: cerbydau modur, y radio, triniaethau meddygol newydd a llawer mwy. Cyfrannodd addewid y Llywodraeth i ddarparu 'Cartrefi Addas i Arwyr' at don enfawr o waith adeiladu a datblygu trefol. Arweiniodd y profiad o ryfel at benderfyniad o'r newydd i greu cymdeithas well.

Wrth fyfyrion ynghylch hynny yn ystod cyfnod y canmlwyddiant, mae'n bwysig gwerthfawrogi'r holl newidiadau arwyddocaol hyn ac ystyried ar yr un pryd pam, yn y pen draw, nad oedd y Rhyfel Byd Cyntaf hefyd yn 'rhyfel i orffen pob rhyfel'.



The Call for Patriotism.

DAME WALES: Welshmen! In the hour of danger our Navy asks for coal. It shall not ask in vain. We will show the world that the blast of my horn, resounding in the hills of Wales, can be responded to by men as patriotic as any the world can boast!

A troublesome episode in the Welsh Coalfield. The colliers eventually hearkened to the call of patriotic duty in order to keep the British Fleet well supplied with Welsh smokeless steam coal.

Tuesday, August 4th, 1914.

Rhaglen Fframwaith Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918

Nodau ac amcanion

Y nod fydd darparu coffadwriaeth lwyddiannus a chofiadwy yng Nghymru sy'n galluogi pawb i gymryd rhan ar adeg ac mewn modd sy'n gweddu orau i'w diddordebau a'u dyheadau.

Ceir llawer o safbwyntiau ar achosion a chwrs y rhyfel yn ogystal â'r effaith drawsnewidiol a gafodd ar fywyd yng Nghymru. Dyma fydd amcanion y Rhaglen:

- adnabod a nodi pen-blwyddi pwysig, gan weithio gyda sefydliadau a gwasanaethau yng Nghymru, gwledydd eraill y DU a phartneriaid rhyngwladol
- cefnogi rhaglen addysgol sy'n annog ysgolion a mudiadau pobl ifanc i gymryd rhan yn llawn mewn digwyddiadau coffáu
- datblygu a chefnogi partneriaethau cynhyrchiol i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau gydol y cyfnod coffáu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol
- cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau dehongli bywiog gan ein cyrff diwylliannol a'n cyrff treftadaeth, sy'n ystyried diwylliant a hanes ac sy'n adlewyrchu safbwyntiau gwahanol ar y cyfnod
- gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a chyllidwyr eraill i gefnogi prosiectau cymunedol sy'n adrodd hanes Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf
- sicrhau bod gwybodaeth am y coffáu yng Nghymru ar gael yn hawdd i bawb yng Nghymru a thu hwnt
- sicrhau bod y coffáu yn gadael gwaddol digidol cyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sut y bydd y Rhaglen yn cael ei threfnu

Bydd y modd y caiff y Rhaglen ei darparu'n adlewyrchu'r ethos cryf o bartneriaeth a ddaeth i'r amlwg yn dilyn y digwyddiadau cynllunio cychwynnol a gynhaliwyd ddechrau 2013. Bu dros 140 o bobl a oedd yn cynrychioli 75 o sefydliadau'n trafod sut y gallai'r coffáu yng Nghymru fod yn sbardun ar gyfer prosiectau a digwyddiadau a oedd nid yn unig yn cydnabod arwyddocâd hanesyddol y coffáu ond a oedd hefyd yn dangos ei berthnasedd i Gymru heddiw.

Bydd y Rhaglen yn mabwysiadu dull gweithredu a fydd yn annog partneriaethau sy'n canolbwyntio ar agweddau ar y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru.

Gallai'r rheini fod yn weithgareddau newydd neu gallent fod ar ffurf cyfleoedd i ganolbwyntio ar faterion arbennig mewn digwyddiadau sy'n bodoli eisoes yn ystod y cyfnod o 2014 i 2018 – sioeau amaethyddol, eisteddfodau, gwyliau diwylliannol a chrefyddol, digwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau ail-greu hanesyddol. Yn ogystal, gallai rhaglenni blynyddol a drefnir gan gymdeithasau a mudiadau cymunedol gynnwys digwyddiad sy'n ymchwilio i'r Rhyfel Byd Cyntaf yn eu maes diddordeb nhw.

Bydd dogfen y Rhaglen yn cael ei hailgyhoeddi'n flynyddol yn ystod y cyfnod coffáu i adlewyrchu gweithgareddau a digwyddiadau newydd.

Gwefan y Rhaglen

Mae gwefan (www.cymruncofio.org) a chyfryngau cymdeithasol cysylltiedig – *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 – yn darparu gwybodaeth am ddiwyddiadau, newyddion perthnasol, gwybodaeth am brosiectau, gwybodaeth am gyllid a gwasanaethau cyfeirio ar gyfer gweithgareddau sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r wefan yn darparu cysylltiadau â ffynonellau eraill o wybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys Gwefan Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf sydd gan yr Imperial War Museums (www.1914.org).

Mae'r wefan yn cael ei datblygu gan Gasgliad y Werin Cymru, sef llwyfan digidol ar gyfer hanes a diwylliant Cymru a reolir fel gwasanaeth ar y cyd gan Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Pan fydd y coffâu wedi dod i ben, bydd y gwaddol digidol hwn yn cael ei warchod ar gyfer y genedl a bydd yn rhan o wasanaeth digidol addysgol Hwb ar gyfer Cymru.

Bwrdd Rhaglen Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914 - 1918

Mae Bwrdd Rhaglen eang wedi'i sefydlu i gynorthwyo Syr Deian yn ei rôl gynghori ac i fonitro'r modd y caiff y Rhaglen Fframwaith ei gweithredu. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, y Fyddin yng Nghymru, y Llynges Frenhinol, y Llang Brydeinig Frenhinol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, yr Eisteddfod Genedlaethol, Cytûn, Imperial War Museums, BBC Cymru, S4C, y British Council, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, Ymddiriedolaeth Amgueddfa'r Ffwwsilwyr Brenhinol Cymreig, Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis a chaiff ei gadeirio gan Syr Deian, sydd hefyd yn cynrychioli buddiannau Cymru ar Grŵp Cynghori'r DU.

Mae gweithgorau unigol i hybu'r gwaith o gydlynu adnoddau addysgol, dehongli hanes, cyfathrebu a chynnal gweithgareddau cymunedol wedi eu sefydlu. Y nod fydd sicrhau bod Fframwaith y Rhaglen yn egluro pwy sy'n gwneud beth a sut y gall pawb gymryd rhan.



*Mynwent Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, Artillery Wood.
© Trwy garedigrwydd Gary Williams*

Rhychwant gweithgareddau'r Rhaglen

Gall y coffáu gynnwys pob un o ddigwyddiadau'r cyfnod. Fodd bynnag, bydd pwyslais penodol ar ddyddiadau coffáu allweddol. Mae'r digwyddiadau cychwynnol a nodwyd at ddibenion coffáu yn cynnwys:

- 4 Awst 2014: Prydain yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Almaen ar ôl i'r Almaen oresgyn Gwlad Belg. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei goffáu gan Wasanaeth i'r Gymanwlad yn Eglwys Gadeiriol Glasgow. Bydd aelodau'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gwylnos yng ngolau cannyll gyda'r nos, a bydd y canhwylau'n cael eu diffodd am 11pm fel symbol o'r golau a ddiffoddodd ledled Ewrop.
- Awst 2014: Dadorchuddio cofeb yn Langemark, Fflandrys i holl bobl Cymru a wasanaethodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Hydref 2014: Canmlwyddiant Brwydr Gheluvelt, a oedd yn cynnwys Cyffinwyr De Cymru.
- 9 Awst 2015: Y 53fed Adran (Gymreig) yn glanio yn Gallipoli.
- 31 Mai 2016: Morwyr o Gymru yn cymryd rhan ym Mrwydr Jutland.
- 1-14 Gorffennaf 2016: Brwydr gyntaf y Somme, gan gynnwys brwydr y 38ain Adran (Gymreig) yng Nghoed Mametz.
- 31 Gorffennaf 2017: Brwydr Passchendaele, gan gynnwys brwydr y 38ain Adran (Gymreig) yng Nghefn Pilckem lle lladdwyd Hedd Wyn.
- 11 Tachwedd 2018: Diwrnod y Cadoediad pan lofnododd lluoedd y Cynghreiriaid a'r Almaen y Cadoediad yn Compiègne gan ddod â'r brwydro i ben am 11am.

Ysgogi syniadau diddorol

Mae'r Bwrdd Rhaglen yn awyddus i annog syniadau dychmygus ar gyfer prosiectau sy'n ennyn diddordeb yng Nghymru ac yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y coffáu yn cael ei glustnodi'n bennaf o'i chyllidebau a'i chynlluniau grantiau presennol. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyhoeddi y bydd £6 miliwn ar gael rhwng 2013 a 2019 i gefnogi prosiectau yn y DU. Yn ogystal, bydd rhaglenni grantiau eraill y Gronfa yn ystyried prosiectau sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ddiweddar cyhoeddodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri wybodaeth am y prosiect llwyddiannus cyntaf yng Nghymru, sef 'Aberhonddu'n Cofio', a fydd yn ymchwilio i hanes y 119 o ddynion y mae eu henwau ar y gofgolofn yn Aberhonddu. Mae Prifysgol Abertawe hefyd wedi cael cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddigideiddio cartwnau Joseph Staniforth, a ymddangosodd gydol y rhyfel ym mhapur newydd y Western Mail. Bydd y prosiect yn gweithio gydag ystod o grwpiau cymunedol, grwpiau hanesyddol a grwpiau ieuentid i gael ymateb i'r cartwnau a chael gwybodaeth amdanynt, gan fynd ati ar yr un pryd i drafod a rhannu ymateb y cyhoedd yng Nghymru i'r gwrthdaro gan ddefnyddio sgysia, arddangosfeydd a chynhadledd.

Mae gan y Gwasanaethau Arfog yng Nghymru stori bwysig i'w hadrodd am y gwrthdaro, ac mae'r prosiectau sydd wrthi'n cael eu trafod yn cynnwys datblygu profiad o fywyd mewn ffosydd, mewn partneriaeth â Chastell Bodelwyddan yn Sir Ddinbych, ar safle ffosydd ymarfer a gloddiwyd gan filwyr y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn 2014 bydd Gŵyl Gregynog yn canolbwyntio ar garedigrwydd Margaret a Gwendoline Davies, Gregynog yn cefnogi arlunwyr a chyfansoddwyr o Wlad Belg yng Nghymru yn ystod cyfnod y rhyfel.

Lleisiau gwreiddiol

Er mwyn darparu deunydd hanesyddol i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i phartneriaid yn cwblhau prosiect digideiddio pwysig yn ystod hydref 2013 – “Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig” (www.cymru1914.org) a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth – a fydd yn darparu 190,000 tudalen o destun, 50 awr o ddeunydd sain ac 20 awr o ddeunydd ffilm sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru fel yr effeithiodd ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru, yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Mae'r cofnodion yn cynnwys cofnodion y Corfflu Cymreig, papurau newydd Cymreig yn ystod y cyfnod rhwng 1913 ac 1918, dyddiaduron, llythyrau, a hanes llafar a recordiwyd gan y BBC a Llyfrgell Glowyr De Cymru.

Bydd archifau beirdd amlwg y Rhyfel Byd Cyntaf mewn casgliadau Cymreig ar gael hefyd at ddibenion addysgol. Bydd yr archif ddigidol hon yn adnodd o bwys i ysgolion, mudiadau ac unigolion wrth iddynt ddatblygu eu prosiectau a'u digwyddiadau.

Lleisiau ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ysbrydoli ysgolion i ddatblygu eu dulliau eu hunain o goffâu'r Rhyfel Byd Cyntaf, a defnyddio dychymyg athrawon a disgyblion ac ymarfer arloesol yn ein hysgolion i ysgogi cyfleoedd i archwilio'r materion sy'n deillio o astudio agweddau niferus ac amrywiol y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd pob ysgol uwchradd yn cael cyfle i wneud cais am gyllid i gefnogi prosiectau sy'n bwysig i'w cymunedau nhw – prosiectau y byddant hwy eu hunain wedi eu cychwyn. Bydd hynny'n rhoi cyfle i ysgolion arwain y gwaith o ddatblygu gweithgareddau

coffáu a fydd yn esgor ar ystod ehangach a mwy amrywiol o weithgarwch yng Nghymru dros y pum mlwyddyn academaidd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhai meini prawf sylfaenol i ysgolion yn ogystal â rhestr o syniadau posibl i'w harchwilio, megis gweithio gydag ysgolion mewn gwledydd eraill neu weithio ochr yn ochr ag ysgolion cynradd sy'n eu bwydo er mwyn cyflwyno arddangosfa ar farddoniaeth leol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r rhyfel. Bydd y Rhaglen hon yn sbardun i ennyn diddordeb lleol mewn hanes a sicrhau bod disgyblion ledled Cymru yn gallu deall yr effaith a gafodd y rhyfel ar eu cymuned nhw, ar Gymru, ar y Deyrnas Unedig ac ar y byd. Gan weithio'n agos gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a phartneriaid, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau dwyieithog, trawsgwricwlaidd, cyffrous a fydd wedi'u teilwra ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

Yn ogystal bydd Hwb, y llwyfan digidol, yn hwyluso fforwm ar-lein er mwyn i ysgolion allu rhannu syniadau a phrofiadau.



Straeon o'r gorffennol

Rhwng mis Medi 2013 a mis Mai 2014, bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnal arddangosfa i nodi cant a hanner o flynyddoedd ers geni cyn-Brif Weinidog y DU, David Lloyd George.

Bydd yr arddangosfa'n cynnwys papurau o'r saith o archifau ar wahân o ohebiaeth sydd gan y Llyfrgell Genedlaethol ynghyd â phapurau'n ymwneud â Lloyd George, a bydd hefyd yn cynnwys eitemau personol o Amgueddfa Lloyd George.

Bydd y Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn cynnal arddangosfa o bwys yn 2016 ar Goed Mametz.

Bydd yr arddangosfa'n seiliedig ar waith y ffotograffydd Aled Rhys Hughes, a ysbrydolwyd gan 'In Parenthesis' gan David Jones, sy'n perthyn i gasgliad y Llyfrgell. Bydd yr arddangosfa'n cynnwys elfennau amlgyfrwng, a chaiff ei datblygu gan ymgynghori ag arbenigwyr academiaidd ar y pwnc. Bydd rhaglen Amgueddfa Cymru ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gwaith Christopher Williams, *The Welsh at Mametz Wood*, sy'n adrodd hanes milwyr o Gymru yng Nghoed Mametz.

Mae'r Amgueddfa wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc, grwpiau cymunedol a phartneriaid amrywiol i ddatblygu rhaglen 5 mlynedd o ddigwyddiadau, arddangosfeydd, rhaglenni dysgu ac ymgysylltu, adnoddau digidol a chyhoeddiadau i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae rhaglen yr Amgueddfa yn agor yng ngwanwyn 2014, gyda phob safle yn cynnal digwyddiadau lansio i godi ymwybyddiaeth o arddangosfeydd a gweithgareddau a gynhelir ledled amgueddfeydd cenedlaethol Cymru.

O 2 Awst 2014, bydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn arddangos 'Y Rhyfel Mawr: Ymdrechion a Delfrydau Prydain' gyda chyfres o brintiau lithograff o gasgliad yr Amgueddfa, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Gwybodaeth yn 1917 i danio'r cyhoedd a oedd wedi blino ar ryfel ac i ennill cefnogaeth o blaid y rhyfel. Bydd yr arddangosfa yn edrych ar yr agweddau amrywiol, megis y newid yn rôl menywod yn sgil y rhyfel.

Bydd Amgueddfa Werin Cymru yn datgelu straeon am y castell yn Sain Ffagan, a gafodd ei ddefnyddio gan filwyr a oedd wedi'u hanafu fel lle i gael adferiad a gwellhad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru yn canolbwyntio ar lowyr o Gymru a drosglwyddodd eu sgiliau i fod yn dwnelwyr ar Ffrynt y Gorllewin.

Mae Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru yn bwriadu rhoi sylw i wrthwynebwyd cydwybodol, sut roedd llên gwerin Cymru yn cael ei chamddefnyddio a'r iaith a ddefnyddiwyd i berswadio dynion i ymuno â'r rhyfel. Bydd Sul y cofio a'r traddodiad o ddefnyddio'r pabi coch yn cael eu harchwilio yn yr holl amgueddfeydd ac ar draws y cyfnod i fyfyrion ynghylch rhyfel, colled a'r dyfodol.

Trafod y rhyfel

Mae canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn cynnig cyfle pwysig i fyfyrion ynghylch safbwyntiau gwahanol ar arwyddocâd y Rhyfel Byd Cyntaf i hanes Cymru. Bydd cynhadledd hanesyddol Gymreig o bwys y bwriedir ei chynnal ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2016 yn gwahodd haneswyr blaenllaw sy'n ymwneud â'r cyfnod i drafod y pynciau dan sylw.

Ymchwilio i'n cofgolofnau, eu hatgyweirio a'u hadfer

Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Gofgolofnau ac Un Llais Cymru sy'n cynrychioli Cynghorau Cymuned Cymru, bydd y Rhaglen yn cynnwys cynllun grantiau a reolir gan Cadw i sicrhau bod cofgolofnau lleol yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwarchod fel cofebau parhaol o aberth dynion a menywod o Gymru. Bydd ysgolion a mudiadau cymunedol lleol yn cael eu hannog i ymchwilio i straeon yr unigolion y mae eu henwau ar gofgolofnau lleol. Bydd y straeon hyn yn rhan o waddol digidol y digwyddiadau coffáu, a bydd Casgliad y Werin Cymru yn darparu cefnogaeth i gofnodi'r straeon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cysylltiadau y tu hwnt i Gymru

Mae'r cyfnod coffáu yn cynnig cyfleoedd i Gymru atgyfnerthu cysylltiadau â gweithgareddau yn y DU a thu hwnt a hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru i gynulleidfaoedd newydd. Mae partneriaeth â chymuned Langemark yn Fflandrys, Gwlad Belg wrthi'n datblygu cofeb genedlaethol newydd ar gyfer y sawl o Gymru a wasanaethodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, wrth ymyl y man lle lladdwyd y bardd Hedd Wyn ym mis Gorffennaf 1917. Bydd y gofeb bresennol, sydd ar ffurf draig, i filwyr y 38ain Adran (Gymreig) yn Mametz, Ffrainc yn cael ei hadfer mewn pryd ar gyfer canmlwyddiant y frwydr ym mis Gorffennaf 2016.

Mae diddordeb cyffredin mewn hanes teuluol yn cynnig cyfleoedd i gysylltu â gwledydd eraill, gan gynnwys gwledydd y Gymanwlad, ac archwilio straeon am Gymry ledled y byd. Eir i'r afael â'r potensial i ysgolion yng Nghymru ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol, ac mae trafodaethau cynnar ar y gweill ynghylch ymuno â gweithgareddau coffáu Ewropeaidd, er enghraifft, dan adain y British Council yng Nghymru.

Coffáu Cadoediad Nadolig 1914

Mae Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig wrthi'n datblygu arddangosfa i goffáu Cadoediad Nadolig 1914 ar y cyd ag Amgueddfa Gatrodol Sacsoni yn Dresden a bwrdeistref Armentières yn Ffrainc. Bydd y prosiect yn adrodd stori'r seibiant byr yn ystod y brwydro adeg Nadolig 1914 yn Armentières, pan gafodd anrhegion eu cyfnewid rhwng milwyr y naill ochr a'r llall. Bydd yr arddangosfa i'w gweld yng Nghaerdydd ar ôl iddi ymweld ag Armentières a Dresden, a bydd adnoddau addysgol yn cael eu datblygu i ddehongli'r digwyddiad.

Teyrnged ar ffurf blodau

Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol wedi cyhoeddi Ymgyrch Pabi'r Canmlwyddiant. Yn ystod yr ymgyrch cenedlaethol bydd y Llang yn annog y cyhoedd ac awdurdodau lleol i brynu hadau pabi'r Fflandrys i'w plannu ar eu tir nhw. Bydd yr arian a godir gan yr ymgyrch yn mynd tuag at yr £1.6 miliwn y mae'r Llang yn ei wario bob wythnos ar ofal a chymorth hanfodol i gymuned y Lluoedd Arfog. Bydd yr ymgyrch, a lansiwyd yn swyddogol ddechrau mis Hydref 2013, yn golygu y bydd y pabi i'w weld ledled y DU yn ystod cyfnod y canmlwyddiant i goffáu pawb a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cymru'n Cofio - y gwaddol

O safbwynt Llywodraeth Cymru, caiff y Rhaglen Goffáu yng Nghymru ei nodweddu gan benderfyniad i gynnwys pawb, boed hynny yn eu cymuned leol nhw neu drwy gyfraniadau i ddigwyddiadau a gweithgareddau cenedlaethol. Rydym am annog pawb sydd â diddordeb i weithio gyda'i gilydd a chreu gwaddol gwerth chweil i'n hanes ar y cyd. Er mwyn sicrhau bod y digwyddiadau, y gweithgareddau a'r gwaith ymchwil yn cael eu gwarchod ar gyfer y dyfodol, bydd cofnod digidol yn cael ei lunio fel gwaddol i ddangos sut y bu i Gymru goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ganrif yn ddiweddarach.



I gael rhagor o wybodaeth:

Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918:

Gwefan: www.cymruncofio.org

Twitter: [@cymruncofio](https://twitter.com/cymruncofio)

Facebook: [Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918](https://www.facebook.com/Cymru-n-Cofio-Wales-Remembers-1914-1918)

Os hoffech gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y coffáu, anfonwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol:

E-bost: cymruncofio-walesremembers1914-1918@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 2112

Mae Bwrdd y Rhaglen yn dod â sefydliadau allweddol o bob cwr o Gymru ynghyd i gefnogi digwyddiadau coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Mae'r sefydliadau a gynrychiolir ar Fwrdd y Rhaglen ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Amgueddfa Cymru: www.amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig: www.rwfmuseum.org.uk/cym/index.html

Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad: www.cwgc.org

Cronfa Dreftadaeth y Loteri: www.welsh.hlf.org.uk/InYourArea/Wales/Pages/Croeso_i_Gymru.aspx

Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru: www.archifaucymru.org.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru: www.celfcymru.org.uk

Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin: www.powell76.talktalk.net

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: www.wlga.gov.uk/cymraeg

Cytûn: www.cytun.org.uk/indecs.html

Eisteddfod Genedlaethol Cymru: www.eisteddfod.org.uk

Imperial War Museums: www.iwm.org.uk

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk

Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk/?lang=cy

Partneriaeth Canmlwyddiant yr Imperial War Museums: www.1914.org

S4C: www.s4c.co.uk/hafan

Y Fyddin yng Nghymru: www.army.mod.uk/structure/28225.aspx

Y Llog Brydeinig Frenhinol: www.britishlegion.org.uk

Y Llynges Frenhinol: www.royalnavy.mod.uk